Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol

**Cyfarfod Rhif 1: Cofnodion**

**Caerdydd 3, Parc Cathays, Llywodraeth Cymru**

**4 Mehefin 2019**

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | |
| Martin Buckle (Cadeirydd) ` | Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol |
| James Morris (JM) | Llywodraeth Cymru |
| Huw Owen (HO) | Llywodraeth Cymru |
| Chris Curry (Secretariat) | Llywodraeth Cymru |
| Rob Knowles (RK) | Llywodraeth Cymru |
| Jonni Tomos (JT) | Llywodraeth Cymru |
| | |
| **Aelodau Pwyllgor:** | |
| Adrian Philpott (AP) | Dŵr Cymru |
| Darren Thomas (DT) | Cyngor Sir Penfro |
| Geraint Edwards (GE) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Andrew Stone (AS) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Jean-Francois Dulong (JD) | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Jeremy Parr (JP) | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Lorna Davis (LD) | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru |
| Catherine Wilson (CW) | Prifysgol Caerdydd |
| Karen Potter (KP) | Y Brifysgol Agored |
| Paul Blackman (PB) | Wallingford Hydro Solutions |
| Mike Wellington (MW) | WSP Consultation |
| David Harris (DH) | Ymgynghorydd Annibynnol |
| Natalie Haines (NH) | Mott MacDonald |
| Anne-Marie Moon (AM) | JBA Consulting |
| | |
| **Y Cyhoedd:** | |
| Dominic Harries | Uwch Ymgynghorydd Risg Llifogydd |

## 1. Ymddiheuriadau

Ni nodwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Cyflwyniadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol a gwnaed y cyflwyniadau.

## 3. Datgan Buddiannau

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor ystyried y papurau a datgan a oedd ganddynt unrhyw wrthdaro buddiannau. Ni oedd unrhyw wrthdaro buddiannau.

## 4. Datganiad Gweinidogion

Cyflwynodd JM y datganiad gan y Gweinidog, lle'r oedd y Gweinidog yn croesawu aelodau o'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol i'w gyfarfod cyntaf.

Mae'r datganiad yn ymdrin yn fras â chyflwyno Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'r ymgynghoriad sydd ar fin ei gynnal. Mae hefyd yn annog y Pwyllgor i feddwl yn ehangach am faterion fel codi ymwybyddiaeth a gwydnwch personol i lifogydd, integreiddio â meysydd polisi eraill, meysydd ymchwil newydd a gwneud y gorau o fuddion buddsoddi.

## 5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar ei weithgareddau ers ei benodi.

Mae wedi bod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i sicrhau penodiad y Pwyllgor, i wneud paratoadau iddo gyfarfod, ac i sicrhau y gall gyflawni ei gylch gorchwyl mewn ffordd sydd mor agored a thryloyw â phosibl. Yn y broses hon, mae hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos â chydweithwyr yn Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae'r Cadeirydd wedi derbyn ceisiadau i fynychu cyfarfodydd nifer o fforymau ac wedi cyfarfod â Fforwm Grwpiau Arfordirol Cymru, a'r grwpiau rheoli perygl llifogydd rhanbarthol ar gyfer Gogledd a De-ddwyrain Cymru. Mae'n bwriadu cyfarfod â'r grŵp rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru.

Cynhaliwyd cyfarfodydd hefyd gyda nifer o unigolion sy'n cynrychioli sefydliadau eraill, gan gynnwys aelodau o gyn Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd Cymru, yn ogystal â Chomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru ac Ynni Llanw Gogledd Cymru.

Roedd y Cadeirydd wedi derbyn gwahoddiad gan Asiantaeth yr Amgylchedd i fynychu gweithdy bythefnos cyn cyfarfod y Pwyllgor, a oedd yn gysylltiedig â'r ymgynghoriad ar ddiweddaru'r strategaeth genedlaethol ar reoli risg llifogydd ac erydu arfordirol ar gyfer Lloegr.

Byddai'n cael cyfarfod gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn ystod yr wythnos ar ôl cyfarfod y Pwyllgor.

Yn ogystal, mae Cadeiryddion y Pwyllgorau Llifogydd ac Arfordir Rhanbarthol yn Lloegr wedi gwahodd y Cadeirydd i fynychu eu cyfarfodydd chwarterol, a bydd yn ymuno â hwy yn Swydd Efrog yn ddiweddarach ym mis Mehefin.

Mae hefyd wedi cytuno i gyfarfod â Chymdeithas Yswirwyr Prydain a Chymdeithas yr

Awdurdodau Draenio maes o law.

Yna, cafwyd trafodaeth am yr ymgynghoriad ar y strategaeth rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol ddrafft ar gyfer Lloegr, a baratowyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Nodwyd mai'r dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad oedd 4 Gorffennaf 2019. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor ymateb. Yn wyneb y cyfnod byr sy'n weddill tan ddaw'r ymgynghoriad i ben, byddai angen dosbarthu ymateb drafft yn electronig ymhlith aelodau'r Pwyllgor am eu mewnbwn ac er mwyn iddynt roi eu sylwadau arno cyn ei gyflwyno.

**CAM GWEITHREDU 1 – Y Cadeirydd i ddosbarthu ymateb drafft ymhlith aelodau'r Pwyllgor ar gyfer eu mewnbwn a'u sylw, gyda'r awdurdod i lofnodi'r fersiwn derfynol ar gyfer ei chyflwyno**

## 6. Adroddiadau

### 6.1 Modus Operandi

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad Modus Operandi (MO) a gwahoddodd y Pwyllgor i nodi ei gynnwys.

Mae'r MO yn nodi rheolaeth weithredol a mewnol y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol, gan gynnwys ei gylch gorchwyl, rheolau sefydlog a dirprwyaethau.

Bydd y Pwyllgor yn cael ei gefnogi gan Ysgrifenyddiaeth o Lywodraeth Cymru, nad oes ganddi rôl gwneud penderfyniadau o fewn y Pwyllgor.

Mae'r cylch gorchwyl yn nodi pwrpas, cwmpas, aelodaeth, dyletswyddau, pwerau, cyfarfodydd, adroddiadau, gweithdrefnau a threfniadau'r Pwyllgor ar gyfer Is-bwyllgorau. Cyfeirir yr elfennau hyn at reoliadau o fewn "Rheoliadau Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru 2017".

Bydd rheolau sefydlog y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol yn gwneud cais am reoleiddio gweithrediadau a busnes cyfarfodydd y Pwyllgor megis; hysbysiadau cyhoeddus a phresenoldeb, papurau, cofnodion, cworwm, cyfrinachedd ac ymddygiad ac ati.

Mae adran ddirprwyo'r adroddiad yn cwmpasu pwerau dirprwyedig y Cadeirydd.

Ymatebodd y **Cadeirydd** i ymholiad gan **JP** ynghylch cyfrifoldebau adrodd y Pwyllgor o ran Gweinidogion Cymru. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn ofynnol i'r Pwyllgor adrodd yn flynyddol (o dan reoliad 9 - Dyletswyddau)

Awgrymodd **HO** na fyddai'r Pwyllgor o reidrwydd am gyfyngu ei hun i un adroddiad blynyddol pe bai cyngor i'w rannu gyda'r Gweinidog ar adegau eraill.

Roedd gan **AP** bryderon ynghylch y Pwyllgor yn cyflwyno rhaglen waith wrth gyfarfod dim ond 3 gwaith y flwyddyn. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid cyflwyno mecanwaith posibl i gyflwyno is-bwyllgorau ac y gallai'r themâu gwaith fod yn sail i raglen y Pwyllgor.

**Nodwyd yr Adroddiad.**

**6.2 Adran 18 o [Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010]**

Pwrpas y papur hwn oedd briffio'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar gefndir a chyd-destun yr 'Adroddiad Adran 18', a chodi rhai pwyntiau i'w hystyried gan y Pwyllgor.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddyletswydd statudol o dan Adran 18 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, i adrodd i Weinidogion Cymru ynglŷn â sut mae perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn cael ei reoli ledled Cymru, a chymhwyso Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

Arweiniwyd y drafodaeth gan Bennaeth Rheoli Risg Llifogydd a Digwyddiadau, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac roedd yn canolbwyntio ar bwrpas yr adroddiad a chais Llywodraeth Cymru (LlC) i'r Pwyllgor gael rôl oruchwylio.

Roedd ymateb **JM** o safbwynt Llywodraeth Cymru, sef bod yr adroddiad Adran 18 yn archwiliad iechyd, yn offeryn monitro sy'n darparu gwybodaeth ffeithiol i Weinidogion Cymru.

Dywedodd y **Cadeirydd** fod ystyried y wybodaeth yn adroddiad Adran 18 y Pwyllgor yn bwysig iawn er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaethau.

Dywedodd **JP** fod yr adroddiad adran 18 sydd ar ddod yn cau'r Strategaeth Genedlaethol flaenorol.

Cadarnhaodd y Cadeirydd yn y cyfarfod nesaf y gallai'r Pwyllgor ystyried ei ymateb i'w ymgynghoriad i'r Strategaeth Genedlaethol newydd ar y cyd ag adroddiad adran 18. Nodwyd mai rôl ymgynghorol yn unig fyddai rôl y Pwyllgor mewn perthynas ag adroddiad Adran 18

**6.4 [Cynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd]**

Rhoddodd **RK**, Uwch Ymgynghorydd Cydnerthedd Hinsawdd gyflwyniad i'r Pwyllgor ar Gynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd, sy'n cwmpasu rhagamcanestyniadau hinsawdd Cymru ac yn egluro cynlluniau datgarboneiddio ac ymaddasu yng Nghymru.

Esboniodd, wrth ddatblygu'r cynllun drafft newydd, ei fod wedi bod yn gweithio gyda dros 100 o arweinwyr polisi o fewn Llywodraeth Cymru yn ogystal â chydweithwyr yn Defra ac adrannau eraill Llywodraeth y DU.

Bu'r Cynllun drafft yn destun ymgynghoriad rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Mawrth 2019.

Trafodwyd y cyflwyniad a'r ddogfen ymgynghori, a nodwyd arwyddocâd rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn y Cynllun.

### 6.3 Rhaglen Waith /Themâu Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd yr adroddiad ar y themâu gwaith a awgrymwyd, a gofynnodd i'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad y dylid cymeradwyo'r adroddiad fel sail i'r flaenraglen waith.

Roedd yr adroddiad yn rhestru'r 11 thema gwaith y disgwylir iddynt lywio rhaglen waith gychwynnol y Pwyllgor, a dywedodd y dylid eu darllen yn eu cyd-destun gyda **Rhan 3 o Reoliadau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol (2017)** sy'n nodi swyddogaethau'r Pwyllgor.

Trafododd aelodau'r Pwyllgor yr 11 thema a chytunwyd ei bod yn rhestr gynhwysfawr ac effeithiol, er yr awgrymwyd, oherwydd nifer fawr y themâu, y byddai angen eu blaenoriaethu i'w cyflawni oherwydd adnoddau.

Tynnodd **NH** sylw at sut roedd y themâu gwaith yn gysylltiedig â dyletswyddau'r Pwyllgor yn y Rheoliadau, a byddai angen eu hadlewyrchu yn y rhaglen waith.

Cynigiodd **LD** rannu adroddiad cynnydd SWOT gydag is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru gyda'r Pwyllgor, a fyddai o werth wrth edrych ar y cynnwys a'r strwythur o safbwynt pwyllgor.

**CAM GWEITHREDU 2 – LD i rannu adroddiad gyda’r ysgrifenyddiaeth i’w ddosbarthu**

Dywedodd y Cadeirydd fod rhai themâu gwaith yn gyfyngedig o ran amser ac felly'n gyflawnadwy. Awgrymodd y dylai'r Pwyllgor weithio i ddechrau gyda'r themâu cyfredol, gyda'r bwriad o adolygu a thrafod sut bydd y themâu a'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â rhaglen. I'w drafod yng nghyfarfod mis Medi.

**Cymeradwywyd yr adroddiad.**

## 7. Unrhyw fater arall a nodwyd yn flaenorol wrth y Cadeirydd

Nid oedd unrhyw fater arall.

## 8. Cytunwyd ar gynnig i wahardd y cyhoedd lle byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelod o'r cyhoedd adael y cyfarfod ar y pwynt hwn oherwydd bod eitemau cyfrinachol yn cael eu trafod.

## 9. Eitemau cyfrinachol

### 9.1 Cofrestrau buddiannau

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem hon.

**CAM GWEITHREDU 3 – Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon ffurflen cofrestr buddiannau at aelodau'r Pwyllgor i'w chwblhau**

### 9.2 Ymgynghoriad ar y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

Rhoddodd **JM** ddiweddariad ar y strategaeth ddrafft newydd.

Trafododd y Pwyllgor y strategaeth yn helaeth a diolchodd **JM** i'r Pwyllgor am eu sylwadau.

### 9.3 Ymgynghoriad ar Nodiadau Cyngor Technegol 14 ac 15

Rhoddodd **JT** drosolwg ar y TAN 14 a 15 drafft.

Croesawodd **JT** ymatebion yr ymgynghoriad gan y Pwyllgor ar yr ystyriaethau o ran llifogydd.

## 10 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

Mae dyddiad a lleoliad 2il gyfarfod y Pwyllgor eisoes wedi cael ei gadarnhau fel 10 Medi 2019 yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Cyffordd Llandudno, Conwy, LL31 9RZ.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai eitemau agenda drafft ar gyfer y cyfarfod hwn yn cynnwys:

- Trafod ymatebion yr ymgynghoriad i'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft a'r Nodiadau Cyngor Technegol
- Adolygu adroddiad Adran 18 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010
- Ymatebion i'r ymgynghoriad i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft
- Rhaglen Waith

**CAM GWEITHREDU 4 – Pwyllgor i roi mewnbwn i'r Cadeirydd ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn y cyfarfod.**

**CAM GWEITHREDU 5 – Yr Ysgrifenyddiaeth i ymchwilio i weithrediad gweithle electronig diogel ar gyfer rhannu papurau.**

**CAM GWEITHREDU 6 – Aelodau'r pwyllgor i ymchwilio i leoliadau posibl, a chynghori'r Ysgrifenyddiaeth os ydynt yn dod o hyd i unrhyw le addas.**